

Pris: 50c

Papur Pawb

Mai 2016 Rhif 419



tud 3
Pobl a Phethe

tud 4, 5, 8 a 9
Ysgolion

tud 7
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

Siop Cynfelyn yn 3 oed

Agorwyd siop a chaffi, Siop Cynfelyn@cletwr gan y gymuned leol am y tro cyntaf ar y 3 Mai 2013. Ar Fai 6 eleni cynhaliwyd parti i ddathlu tair blynedd o brysurwch a gweithgaredd llwyddiannus gan y cwmni cymunedol ac i ddathlu hefyd fod Cwmni Cymunedol Cletwr, ers y 1 Mawrth eleni, bellach yn berchnogion ar adeiladau Cletwr yn dilyn eu rhentu'n wreiddiol gan Huw a Sue Lewis. Mynychwyd y dathliadau pen blwydd gan gefnogwyr ac aelodau o'r gymuned leol ac yn arbennig ein gwirfoddolwyr niferus sy'n rhan mor hanfodol o'r fusnes. Braff iawn oedd cael croesawu criw rhaglen deledu Heno, atom a fu'n darlledu'n fyw o'r digwyddiad, gan gyfweled gyda phobl oedd yn mynychu'r parti



ac i glywed mwy am y prosiect. Amlygwyd yn yr eitem ar Heno, fel y mae'r amcan gwreiddiol o ail agor y siop a'r caffi wedi tyfu a datblygu'n hwb cymunedol cyffrous i'r ardal, yn cynnig ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Eglwysfach/Ffwrnais: Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 (01654) 781260 (01654) 781324
Cadeirydd:	CYMEITHAS PAPUR PAWB Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

**Y Bryn
Tal-y-bont**

Annwyl Gyfeillion
Diolch yn fawr iawn am y cardiau, anrhegion, dymuniadau da, yr ymweliadau a'r galwadau ffôn a dderbyniais ar ôl cwmpo yn ddiweddar.

Diolch hefyd i Ysbyty Bronglais am y driniaeth ac i Ysbyty Tregaron a Chartref Tregerdan am y gofal ardderchog a phob caredigrwydd a gefais yno.

Cofion,
Kathleen Richards



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**HYSBYSEB AR GYFER
SWYDD GOFALWR**

Mae Morlan yn chwilio am ofalwr i weithio ychydig oriau bob wythnos gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau (nid oes oriau set).

Cyfrifoldebau: agor a chau, gosod ystafelloedd, ac ati.

Mae Morlan yn talu'r cyflog byw.

Manylion pellach: 01970-617996 neu morlan.aber@gmail.com

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

SEFYDLIAD Y MERCHED EGLWYSFACH

Dydd Sul 15 Mai 11.00 - 5.00 Diwrnod Gerddi Agored, Mynediad a map £5, ar gael yn yr Ystafell Haearn neu yn y Gerddi, Bydd 8 gardd ar agor gan gynnwys paned yn yr Ystafell Haearn dros amser cinio.

Taith i Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, 14 Awst: mynediad am ddim, dim ond talu am y bws, cysylltwch ag Alison am fanylion 01654 781322



**CYMANFA RALI CFFI
CEREDIGION TAL-Y-BONT
5 MEHEFIN 2016**

Yng Nghapel Bethel am 7yh
Arweinydd: Pete Leggett
Organyddes: Catrin Saunders-Jones
Artistiaid: Aelodau'r Clwb ac Ysgol Sul Bethel

Dyddiadur

MAI

15 Bethel Uno yn Nasareth
Nasareth 2 Judith Morris
Rehoboth 5 Elwyn Pryse
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30

**15-21 Wythnos Cymorth
Cristnogol**

**16 Merched y Wawr
Tal-y-bont a'r Cylch**
Cyfarfod Blynnyddol
(Gareth Owen)

18 Y Proff yn y Pyb
8 Y Llew Gwyn

**19 Sefydliad y Merched
Tal-y-bont** Gwaith yr
heddlu yn Llundain
(Anita Owen)

Eglwys Dewi Sant 7
Gwasanaeth Hwyr
22 Bethel 2 Gweinidog
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol i bob
oedran

**24 Cymdeithas Treftadaeth
Llangynfelyn** 7.30
Llanfach

29 Bethel 10 Oedfa undebol
yr ofalaeth (Cymun)
Rehoboth 10 Gordon
Macdonald

Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth undebol
Eglwys Sant Pedr, Elerch
2.30

MEHEFIN

2 Eglwys Dewi Sant
7 Gwasanaeth Hwyr
4 Rali CFFI Ceredigion ar
fferm Berthlwyd,
Tal-y-bont
Dawns i ddilyn ar fferm
Neuadd Fawr, Tal-y-bont
gyda Band Tom Collins
**5 Gymanfa CFFI
Ceredigion** ym Methel,
Tal-y-bont am 7
Bethel 10 Uno yn
Nasareth
Nasareth 10 Bugail (C)
Rehoboth 10 Rhidian
Griffiths
Bethesda, Tynant
Gwasanaeth
12 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 5 Terry Edwards
Rehoboth 10 Bugail (C)
24 Caws, Gwin a Chàn
7 p.m. yn Eglwys Sant
Pedr, Elerch, gyda
Chôr Meibion
Aberystwyth,
Parti Llund Llaw ac
artistiaid lleol

Preswylwyr Cartref Tregerdan yn mwynhau eu tē Pasg blynnyddol



Os am gynnwys manylion
am weithgareddau eich
mudiad neu'ch sefydliad
yn nyddiadur y mis,
dylech anfon y manylion
llawn at Carys Briddon,
carysbriddon@btinternet.
com 01970 832478 o leiaf
ddeng niwrnod cyn y
rhifyn nesaf o Papur
Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn
oedd Mair a Beryl gyda
Ceri'n dylunio.
Golygyddion mis Mehefin
fydd Geraint ac Eirian
(post@garnwen.co.uk), gydag
Iolo yn dylunio. Y dyddiad
cau ar gyfer derbyn
newyddion fydd dydd
Gwener 3 Mehefin, a bydd y
papur ar werth ar
10 Mehefin.

Pen-blwyddi Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn i Dai Bond, Brodawl, Taliesin, a ddathlodd ben-blwydd arbennig ar 4 Mai ac i Aldwyth Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ar 12 Ebrill.

Adre o'r ysbyty

Cofion gorau i Lela Jenkins, Tŷ Ceulan, Tal-y-bont sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar ac i Eirlys Jones, Maes-y-deri sydd wedi dod adre ar ôl cyfnod yng Nghysgod y Coed, Llanilar.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn gyda Ioan Beechey, Lletyllwyd, Tal-y-bont a'r teulu ar golli ei famgu, Mrs Glenys Thomas, Penrhyncoch a'i ewyrth, Mr David John Edwards, gynt o Lletyllwyd, yn ddiweddar.

Hunangofiant

Dr Wynne Davies

Yn y rhifyn diwethaf o Bapur Pawb gofynnwyd i'r darllenwyr anfon enwau'r aelodau oedd yn y llun o griw Noson Lawen capel Bethel at y golygydd. Diolch i Non Griffiths, Fferm Ffwrnais am anfon yr enwau yma i ni. Rhes ôl: Y Parch. Morlais Jones; Mairwen Jones; Glenys Evans; Dr Wynne Davies Rhes flaen: Gwenda Jenkins; Megan Evans; Miss Ruffina Owen; Non Jenkins; Enfy Richards

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ffion Nelves, Dolau Gwyn, Tre'r Ddôl ar basio ei phrawf gyrru nôl ym mis Ionawr ac am ennill ysgoloriaeth o £2,000 i astudio seicoleg yn y Brifysgol ym Mangor ym mis Medi.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Stuart a Teri Jones, Bronhaul, Tal-y-bont ar enedigaeth mab ar yr 2il o Ionawr. Croeso i Tommi Walter brawd bach i Shae. Llongyfarchiadau i'r teuluoedd i gyd.

Torri Gwallt

Merch ddewr ac anhunanol iawn yw Niamh O'donnell, Maesnant, Tal-y-bont a dorrodd ei gwallt hir er mwyn iddo gael ei wneud yn wallt gosod i blentyn sydd yn dioddef o ganser. Da iawn ti yn meddwl am eraill.

Pobl a Phethe



Diffibriliwr i Gymuned Eglwysfach

Cyflwynwyd diffibriliwr yn ddiweddar i Gymuned Eglwysfach gan Glan Davies o Calonnau Cymru. Cyfrannodd Cyfeillion Gyrfa Chwist Clwb Bowlio Machynlleth hanner cost y diffibriliwr a'r gweddill gan y gymuned leol. Trefnwyd hyfforddiant ar gyfer aelodau'r gymuned gan Glan ac aelod o Gyngor Ceredigion a daeth Barbara Jenkins, Lyn Roberts a Glenys Evans i'r hyfforddiant er mwyn cyflwyno'r diffibriliwr ar ran Cyfeillion yr Yrfa Chwist.



Doli Micstiys

Fel rhan o ddathliadau 20-mlwyddiant sefydlu cwmni drama Licris Olsorts (dan gyfarwyddyd y diweddar Buddug James Jones), penderfynwyd y byddai'n dda o beth ail-sefydlu cangen iau y cwmni, Doli Micstiys, i roi cyfle i rai o actorion iau yr ardal ddangos eu doniau ar y llwyfan. Mae nifer o blant yr ardal i'w gweld yn aml yn perfformio mewn prif rannau yn rhai o sioeau Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, ond prin yw'r cyfoddd perfformio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r criw o bump, (Heledd Davies, Glain Llwyd Davies, Gwenllian King, Oisín Lludd Pennant ac Ifan Clubb) wedi bod yn perfformio 'Ar y Prom' gan Sion Pennant ac wedi cael llwyddiant yn eu cystadleuaeth gyntaf yng Nghwyl Ddrama Corwen, drwy ennill y cwpan yn y gystadleuaeth dan 18 oed. Hefyd, cafodd Heledd Davies y gwpan am y prif actor / actores dan 18 oed.

Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob hwyl i'r cwmni yn Eisteddfod yr Urdd y Fflint ac yn Eisteddfod Genedlaethol y Fenni, ble byddant yn cystadlu yn erbyn y cwmni hŷn - Licris Olsorts - pryd gwelwn rieni yn cystadlu yn erbyn eu plant! Tybed pwy fydd yn rhagori?

Oxfam

Mae Margaret Jones, Nantgaredig, Tal-y-bont wedi ymddeol ar ôl 30 blynedd o wasanaeth gwirfoddol i siop Oxfam, Aberystwyth. Derbyniodd dystysgrif a bathodyn aur am ei gwaith caled dros y bynyddoedd.

Ymddeoliad

Dymuniadau gorau i Roger Morel, Llawr-y-glyn, Bont-goch yn dilyn ei ymddeoliad diweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sion Soughtgate fu'n cymryd rhan mewn gorymdaith 'Passing Out' gyda'r Llynges Frenhinol yn ddiweddar oedd yn dathlu iddo orffen ei gyfnod hyfforddiant yn llwyddiannus. Bydd ei yrfa gyda'r Llynges Frenhinol yn parhau ar y llong HMS Raleigh. Bu Sion yn ddigon ffodus i ennill gwobr hefyd yn ystod y Seremoni Gyflwyno am gynnal a chadw ysbryd, hwyl a hiwmor ymysg y sgwad. Pob dymuniad da i ti gyda'r yrfa i'r dyfodol.

Ysgol Sul Bethel

Cymerodd criw bach o aelodau Ysgol Sul Bethel ran yng Ngymnafia Gogledd Ceredigion fore Sul, 8 Mai yng nghapel Seion, Aberystwyth. Diolch i Efa, Elinor, Hopcyn, Lleucu, Martha a Miri am eu llefaru clir a graenus wrth roi emyn allan. Roedd y chwech yn llawn haeddu'r hufen ia ar y prom yn dilyn yr oedfa!

Ennill Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont sydd wedi ennill Ysgoloriaeth Meddyliau Creadigol 2016 gwerth £3,000 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Pob dymuniad da i ti ar y cwrs ym Mhrifysgol Caerdydd.

Talwrn y Beirdd

Llongyfarchiadau i dim Talwrn y Beirdd Tal-y-bont ar ennill ei le yn rownd wyth olaf y gyfres radio boblogaidd. Dyma'r tro cyntaf i'r tîm gyrraedd mor bell yn y gystadleuaeth a phob dymuniad da i'r pedwar bardd a fydd yn parhau i chwifio baner ein cymuned yn y rownd nesaf. Cofiwch wrando.

Bryisia Wella

Anfonwn ein cofion at Carol Evans, Ty'n Rhelyg sydd yn Ysbyty Bronglais, pob dymuniad da am wellhad buan.

Llwybr Diogel



Ar ddydd Sadwrn olaf Ebrill, gwelwyd trigolion cymuned Ysgubor-y-coed yn protestio unwaith eto i dynnu sylw at yr angen dybryd am lwybr diogel i gerdded rhwng y tri pentref. Er bod palmentydd mewn rhannau o'r gymuned mae angen eu cysylltu i sicrhau mynediad diogel o bentrefi Glandyfi, Eglwysfach a Ffwrnais i'r eglwys, yr Ystafell Haearn, gorsaf drên Cyffordd Glandyfi ac, yn bwysicaf oll, llwybr diogel i'r disgyblion sydd angen dal y bws ysgol i'r dre. Cawn ond obeithio y bydd y Gweinidog Trafnidiaeth newydd, pwyl bynnag y bo yn gwrando ein cri!



Ysgol Llangynfelyn



Celf a Chrefft yr Urdd



Gwobr Gwyddoniaeth



Ymweliad PC Alun Jones



Prosiect 'Rocket Science'

Ysgol Llangynfelyn

Celf a Chrefft yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i amryw o blant yr ysgol ar eu llwyddiant yng Nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Aeth Mrs Nelmes â llond ei char o waith lawr i Wersyll yr Urdd, Llangrannog. Roedd y Neuadd Chwaraeon yn brysus iawn gyda channoedd o enghreifftiau o waith Celf a Chrefft disgyblion Ceredigion. Yn llwyddiannus oedd:

Tilly Heathfield – 1af – Argraffu/Addurno ar ffabrig – Blwyddyn 5 a 6.
Grŵp Blwyddyn 3 a 4 – 2il – Creu arteffact allan o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Seamus Byrne – 3ydd - Argraffu/Addurno ar ffabrig – Blwyddyn 5 a 6
Bydd gwaith Tilly yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'w feirniadu yn erbyn gwaith y siroedd eraill. Pob lwc i ti Tilly!

Gwobr Gwyddoniaeth

Llongyfarchiadau i dair o'r merched sef Tilly, Jasmine a Violet am ennill gwobrau yn y Ffair Wyddoniaeth ddiweddar yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Enillon nhw wobwr am ddod yn gyntaf yn y cwis Gwyddoniaeth.

Ymweliad PC Alun Jones

Daeth PC Alun i'r ysgol y tymor yma eto i gynnal sesiynau gyda'r plant. Cyflwynodd wers am 'Gerrig a Ffyn' i'r disgyblion hŷn yn delio gyda bwlio. Yn y Caban, bu'r plant iau yn dysgu am gadw'n ddiogel a sut i ffonio 999. Diolchwn yn fawr iawn i PC Alun am ei waith pwysig iawn.

Prosiect 'Rocket Science'

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn prosiect diddorol iawn y tymor yma. Rydyn wedi derbyn dau becyn o hadau roced. Mae un pecyn o hadau wedi bod fyny yn yr Orsaf Ofod Rhyngwladol a'r pecyn arall yn hadau cyffredin sydd heb fod yn y gofod. Mae'r plant wedi plannu'r hadau o dan amgylchiadau penodol iawn ac wedi'u labeli yn ofalus. Byddwn yn cymryd mesuriadau o faint o'r hadau sydd wedi egino, pa mor dal ydynt a faint o ddail sydd ar y planhigion. Byddwn yn danfon y canlyniadau nôl i Tim Peake sydd yn y gofod ar hyn o bryd. Gyda chanlyniadau ysgolion eraill, bydd y gwyddonwyr yn medru gweld os yw hadau sydd wedi bod yn y gofod yn tyfu gystal, yn waeth neu'n well na hadau sydd heb fod yn y gofod. Gallwch chi ddilyn ein prosiect ar Twitter – dilynwch @YGLlangynfelyn

Dathliad Diwedd Tymor

Dyddiad i'ch dyddiadur. Bydd ein Barbeciw blynyddol eleni yn barti mawr - yn ddathliad ac yn rhoi cyfle i bawb ffarwelio â'r ysgol. Mae croeso cynnes i chi ymuno gyda ni. Bydd y barbeciw yn rhad ac am ddim i bawb. Hoffwn wahodd cymaint o gyn-ddisgyblion yr ysgol a ffrindiau a chymdogion yr ysgol a'r ardal i ymuno gyda ni, felly lledaenwch yn neges i bawb, os gwelwch yn dda.

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Torri Porfa, Sietynau, Tirtunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

Ysgol Llangynfelyn BARBECIW A PHARTI

Nos Fawrth,
Gorffennaf 5ed
6 o'r gloch yn yr ysgol

CROESO I BAWB

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Cymdeithas Defaid Mynydd Ceredigion Arbrawf Wyn Hyrddod 2015-16



Llywydd y Gymdeithas, Gwilym Jenkins, yn cyflwyno Cwpan Rumenco i Rheinallt Jones, Ceiro, a Huw Davies, y Cadeirydd yn cyflwyno Cwpan Hybu Cig Cymru i Glyndwr Owen, Tynddol, Ffair Rhos yng nghwmni'r aelodau.

Un o weithgareddau'r Gymdeithas yn flynyddol yw'r Arbrawf Wyn Hyrddod lle mae aelodau'r Gymdeithas yn cael cyfle i anfon rhai o'u wyn hyrddod i ffwrdd dros y gaeaf. Eleni fe gymerodd 14 o ffermydd ran yn yr arbrawf, gyda 43 o wyn yn gaeafu i ffwrdd yn ardal Pen Llyn. Ar ddiwedd yr arbrawf, bu Hybu Cig Cymru yn mesur dyfnder y cig a'r braster, yn ogystal â'r cynnydd mewn pwysau, er mwyn rhoi Gwerthoedd Bridio Tybiedig (EBV) i'r wyn. Eleni yn ennill Cwpan Hybu Cig Cymru oedd Glyndwr Owen, Fferm Tynddol, Ffair Rhos, gydag indecs o 148.

Mae'r aelodau hefyd yn cael cyfle i ddewis yr hwrdd gorau sy'n meddu ar rinweddau'r brid. Enillwyd cwpan Rumenco gan Dafydd Jones, Ceiro, Ponterwyd a chipiodd yr ail safle yn ogystal, gyda hwrdd Enoc a Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont yn drydydd. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

HUW LEWIS M.O.T. CENTRE	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	TYRES
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221		

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsr £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

Digwyddiador Siop Cynfelyn

I gysylltu gyda'r siop: cletwr@cletwr.com | 01970 832113 | @siopcynfelyn
[facebook/trydar]

Dydd Llun, 16 Mai – 15:00-17:00

Sesiwn 'galw-mewn' NYTH—Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru. Bydd Pete yma'n cynnig cyngor ynglŷn â gwelliannau cartref am ddim, megis boeler gwres canolog newydd neu inswleiddio'r tŷ.

Dydd Sul, 22 Mai – 11:00-12:30

Cerdded Cletwr: "Hedgerow Medicine" - Meddyg Llysiau Amanda Dean, MNIMH. Dysgwch sut i ffeindio, adnabod, a defnyddio ystod eang o blanhigion bwytadwy a meddygol lleol. Rhaid arbed lle. Cysylltwch â'r siop. Rhodd awgrymiedig £5. Pob ceiniog tuag at gronfa adeilad newydd Siop Cynfelyn.

Nos Sul, 22 Mai – 20:30—23:00 (oddeutu)

Cerdded Cletwr: "Nightjars and Other Creatures of the Night"— yr athro breswyl, Caroline de Carle - 'Ladybird' — Gwarchodfa Natur Cors Fochno. £3 y person. **Rhaid arbed lle.** Cysylltwch â'r siop. Ymddiheuriadau, dim cŵn ar y warchodfa natur.

Dydd Sul 29 Mai – 14:00-17:00

Cerdded Cletwr: Helfa Drysor—Jenny Dingle. £2 y person/ £5 y teulu. **Rhaid arbed lle.** Cysylltwch â'r siop. Ymddiheuriadau, dim cŵn

Dydd Iau, 2 Mehefin – Trwy gydol Mehefin/ Gorffennaf Oriel y Cwtch: Grŵp Celf Taliesin - Yn cael ei harddangos yn y Cwtch trwy gydol mis Mehefin a Gorffennaf. Dewch i gwrdd â'r criw 2 Gorffennaf, 15:30-17:00.

Dydd Sul, 12 Mehefin – 10:00– 12:00

Cerdded Cletwr: "Water Treatment Walk"—Jess Allen, Arlunydd. Wedi'i ysbrydoli gan ei phrofiadau yn ystod ei pherfformiad 5 diwrnod yn ystod mis Mai. watertreatmentwalks.org.uk **Rhaid arbed lle.** Cysylltwch â'r siop. Derbynnir rhoddion gyda diolch.

Dydd Mercher, 15 Mehefin – 16:00—17:00

Age Ceredigion - Cyflwyniad byr gyda C&A wedyn. Dewch i glywed am waith Age Ceredigion, a sut allent gynnig cymorth i'n cymuned.

SWYDD WAG Cydlynnydd Digwyddiadau Cymunedol Rhan-amser

Siop
Cynfelyn
@Cletwr

Rydym am gyflogi person cymwysedig addas i ddwyn ein rhaglen ddigwyddiadau a chyfleoedd ieuencid yn ei blaen yng Nghwmni Cymunedol Cletwr, Tre'r-ddôl.

16 awr yr wythnos, cytundeb dros dro [12 mis]

Posibilrwydd o rannu swydd [e.e. 2 person @8awr]

Cynigir cyflog cystadleuol gan ddiwynnu ar brofiad.

Bydd y gwaith yn cynnwys:

- adnabod cyfleoedd newydd i ddenu pobl leol, ymwelwyr a'r cyhoedd ehangach i ddigwyddiadau a gweithdai.
- ystyried a thrafod syniadau gyda phartion sydd â diddordeb, marchnata digwyddiadau a'u rheoli'n gyffredinol.
- marchnata a rheoli digwyddiadau a gynhelir yn rheolaidd (gan gynnwys digwyddiadau Cymraeg eu hiaith, a teithiau cerdded)
- datblygu cyfleoedd i bobl ifanc yn y gymuned ac yn y siop a'r caffi.

Mae'r gallu i gyfathrebu mewn Cymraeg safonol yn fanteisiol.

Y dyddiad cau am wneud ceisiadau yw dydd Llun Mai 30, 2016
Dyddiad tebygol am gyfweiliad: Dydd Gwener, Mehefin 10, 2016

E-bostiach ni am fwy o fanylion ynglŷn â beth sydd ynghlwm â'r gwaith. Am ddisgrifiad swydd a ffurflen gais, e-bostiach digwyddiadau@cletwr.com



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Mae siop a'n therapi i rai, medden nhw, ond math arall o therapi a gafodd aelodau'r gangen wrth iddynt groesawu Ruth Jên a Helen Jones i'r gangen ar Nos Lun, 18 Ebrill. Dwy ffrind agos a dwy gymeriad hoffus gyda dawn gelfyddydol yw'r ddwy. Fe gawsom wybod sut y bu iddynt gwrdd am y tro cyntaf ar gwrs sylfaen yng Ngholeg Sir Gâr, eu hynt a'u helynt yno a'r profiadau a gawsant dros y blynyddoedd wrth iddynt rannu eu diddordeb ym myd celf.

I faes argraffu yr aethpwyd â ni, ac fe roddodd Ruth arddangosfa a chyfarwyddiadau clir i ni o'r broses a'r hyn yr oedd am i bob un ohonom ei wneud (er mawr ofn i ambell un!) gyda Helen yn cefnogi ac yn mynegi barn!

Yna, cafodd pob aelod gyfle i beintio, cynllunio patrwm ac i argraffu a daeth yn amlwg fod talentau creadigol cudd yn y gangen.

Diolchodd Fal i'r ddwy am noson hwyliog a therapiwtig ac i Margaret am drefnu'r noson.

Ar fore Sadwrn, 30 Ebrill, dan arweiniad Medi, aeth aelodau o Ferched y Wawr Dwyfor, Tal-y-bont, Bow Street ac Aberystwyth ar daith gerdded o chwe milltir. Roedd yn ddiwrnod perffaith o ran tywydd a gwelwyd Cwm Cletwr a'r ardal yn eu holl ogoniant ac roedd y golygfeydd o'r top yn werth eu gweld. Braf oedd mwynhau paned a chacen yn Siop Cynfelyn ar ddiwedd y daith. Gyda'r nos, mwynhawyd swper yng nghwmni'n gilydd ym mwyty Medina, Aberystwyth.

EJ.



James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Liz Roberts

Chris Gilbert *Llun: Tim Jones*Beti Wyn *Llun: Tim Jones*

Sefydliad y Merched Taliesin Llwyddiant yn Rali'r Sir

Eleni eto bu rhai o aelodau Taliesin yn cefnogi Rali Sir y Mudiad yn Ciliau Aeron ddydd Sadwrn 14 Ebrill. Roedd y neuadd yn wled i'r llygaidd gyda cystadleuaethau uchel a niferus o waith celf, coginio a gosodiadau blodau. 'Rhamant' yw thema y brif gystadleuaeth yn yr adran flodau a Beti Wyn enillodd Cwpan Aberhonddu a mynd ymlaen i gynrychioli y Sir yn y Sioe Frenhinol. Enillodd Liz Roberts gwpan am y nifer fwyaf o farciau yn yr adran coginio a Chris Gilbert enillodd yr eitem orau yn yr adran flodau.

Dyma rhestr o ganlyniadau SyM Taliesin

Arddangosfa Cydweithredol ar y Thema Rhamant: 2il

Cwpan Aberhonddu: 1af - Beti Wyn

Bisgedi wedi addurno: 1af - Liz Roberts; 2il - Beti Wyn

Sgonau Sawrus: 3ydd - Liz Roberts

Bara soda: 3ydd - Liz Roberts

Cacen Marmaled: 3ydd - Liz Roberts

Eitem o fotymau: 1af - Beti Wyn

Masg ar y thema rhamant: 1af - Beti Wyn

Cymeriad ar thema unrhyw stori i blant: 1af - Beti Wyn

Coron o flodau: 1af - Chris Gilbert

Planhigyn tŷ: 2il - Beti Wyn

Tusw o flodau: 1af - Beti Wyn; 2il - Chris Gilbert

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Yn ôl y nofelydd, L. P. Hartley, gwlad ddieithr yw'r gorffennol. Os awn yn ôl dim ond canrif, gwelwn fod y pethau bob dydd yn medru ymddangos yn ddiarth iawn. Yng nghyfarfod mis Ebrill, daeth Ania Skarzynska o Archifau Ceredigion i ddangos rhai o'r rysteiau a'r meddyginiaethau sydd wedi'u cofnodi yn nyddiaduron a llyfrau nodiadau o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r cyfnod Edwardaidd.

Ffisig poblogaidd yn ystod oes Victoria, mae'n debyg, oedd dŵr malwod – malwch hanner bwcedaid o falwod o'r ardd mewn llaeth, ychwanegwch lysiau tebyg i wermod lwyd a gadewch i sefyll am ychydig ddyddiau cyn yfed. Os na wellith yr anhwylder, cymrwch 30mg o laudanum (h.y. opiwm – 100mg yn medru bod yn farwol). Neu a gawsoch chi eich brathu efallai gan gi cynddeiriog? Clywsom am ddau rysait ar hwn, eto yn defnyddio planhigion o'r ardd neu'r meysydd. Roedd un ohonynt yn addo gwellhad yn ddiffaell, ond y llall yn rhybyddio, os na fyddwch yn gwella mewn ychydig ddyddiau, y byddech yn marw.

Mae'n hawdd i ni, yn oes yr archfarchnadoedd a thabledi gwrth-bioteg di-ri, i chwerthin ar ben moddion o'r fath, ond yn eu hamser hwy, dangos eu dyfeisgarwch a'u gwynnwch yn wyneb ansicrwydd bywyd roedd ein cyndadau. Pob clod iddynt am ddefnyddio yr adnoddau oedd ar gael iddynt.

Yn sicr, roedd angen llawer o ddyfeisgarwch ar yr ymfudwyr cyntaf i'r Wladfa ym 1865, i oroesi'r blynyddoedd cynnar anodd. Cawn glywed eu hanes gan Eirionedd Baskerville yn ein cyfarfod nesaf ar Fai 24 yn Llanfach, Taliesin am 7.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Ail-Ethol Elin

Wel mae halibalw'r etholiad drosodd o'r diwedd - yr arwyddion sy'n anharddu'n priffyrdd a chaeau wedi diflannu a dim mwy o'r taflenni diddiwedd yn cyrraedd gyda'r post.

Yn gwbl haeddiannol enillodd Elin Jones dymor arall fel ein cynrychiolydd yn y Cynulliad. Bu'n Aelod gweithgar, effeithiol a dirodres dros sawl blwyddyn bellach. Roedd ei hymgyrch yn anrhydeddus ac egwyddorol o ran natur, yn wahanol iawn i ymgyrch ambell i ymgeisydd arall ond fe gafodd hwythau eu haeddiant hefyd gan etholwyr y sir. Nid yw tactegau Donald Trump yn gweithio yng Ngheredigion. Braff hefyd oedd clywed fod y nifer a bleidleisiodd yn yr ardal hon yn uwch na'r cyfartaledd.

Roedd 'na ochr dywyll i'r etholiad hefyd. Sut yn y byd y cawsom aelod rhanbarthol sy'n enwog am fod yn dwyllwr a chlown diegwyddor, wn i ddim? Gelyn cymdeithas wareiddiedig yw'r blaid y mae e'n ei gynrychioli.

Byddwn yn pleidleisio unwaith yn rhagor ym mis Mehefin. Y tro hwn bydd y dewis yn glir ac ni ddylai neb gymryd y cyfan yn ysgafn. Byddai gadael Ewrop yn drychineb i Gymru ac ardaloedd amaethyddol fel ardal *Papur Pawb*. Gocheler rhag y ffug broffwydi a'u tactegau.

G.J.

Y Gair Olaf



Gelwir y pumed o fisoedd y flwyddyn yn fis Mai. Hwn sydd a'r enw lleiaf o blith y deuddeg. Dim ond tair llythyren yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r mis gafodd yr enw lleiaf, yn gyfoethog yn ei liwiau a'i leisiau, ei fwisg a'i flodau

'Gyda'i firi yn yr helyg

Gyda'i flodau fel y barug'.

Mae yna enwau eraill, a chanddynt ond tair llythyren, sy'n wynfyd i'n bywyd. Dyna'r enw 'tad', neu 'mam', dim ond tair llythyren, ond pwy all fesur y gwynfyd ddaw i ni trwy rieni da.

Clywsom am fachgen a roddodd fil i'w fam, am redeg negesau, a gwneud rhyw bethau eraill o gylch y tŷ. 'Roedd cyfanswm y bil yn ddeg punt. Gwenodd ei fam pan ddarllenodd y bil. Bore wedyn, 'roedd bil gan ei fam i'w mab, fel hyn: am gartref a bwyd, am esgidiau a dillad, am ofal yn glaf ac yn iach – cyfanswm: dim.

Mis Mai yw mis 'Ewyllys Da' plant Cymru i blant y byd. Oddi ar 1922, anfonir allan o Gymru "Neges Heddwch". Er na chafwyd un ateb y flwyddyn gyntaf, daw ugeiniau o atebion erbyn hyn. Geiriau yn mynegi dymuniad calon plant gwledydd y byd, am gael 'Tangnefedd ar y dddear, i ddynion ewyllys da'. Y gair Lladin am heddwch yw 'Pax'. Dim ond tair llythyren. Nid oes dim pwysicach i holl wledydd y byd, na defnyddio eu doniau a'u da, i hyrwyddo heddwch.

Ie, geiriau bychain tair llythyren, sy'n cyfrannu gwynfyd i eraill ac yn estyn i fywyd dyn, wanwyn cyfoethog o liwiau a lleisiau, o fwisg a blodau, i'w brydferthu a'i berarogli.

Brian Davies

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Sioe ar Nos Lun 7 Mawrth yn y Neuadd Goffa.

Croesawyd pawb gan y cadeirydd, ac fe gafwyd adroddiad manwl a llewyrchus gan y swyddogion.

Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Edrychir ymlaen nawr at Sioe eleni.

Llywyddion y Sioe eleni yw Mr a Mrs Robat Gruffudd, Bryngwyn.

Etholwyd y Swyddogion a ganlyn am 2016:

Cadeirydd: Dafydd Jenkins, Tanrallt.

Is-Gadeirydd: Susan Rowlands, Erglodd.

Trysorydd: Helen Ovens, Crud yr Awel, Taliesin

Trysorydd Cynorthwyl: Howard Ovens, Frondirion

Ysgrifenyddes Gyffredinol: Janet Jones, Llwynglas

Ysgrifennydd y Babel: Aeron Edwards, Dolparc, Llanilar

Rheolwr y Maes: Emyr Davies, Llety Ifan Hen

Cyfarwyddwr y Sioe: Teulu Bryngwynmawr

Bydd y Sioe yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 27 Awst ar gaeau'r Llew Du drwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri.

Os hoffech stiwardio yn y sioe byddai Janet Jones, (01970 832293) neu un o'r swyddogion yn falch iawn o glywed gennych.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn ein pwyllgorau sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun cyntaf bob mis, yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch.

Rhian
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Ysgol Tal-y-bont

Llesol

Mae digwyddiadau LLESOL wedi parhau yn ystod y mis gyda Michael Morgan o Sant Ioan Cymru yn cyflwyno sesiwn Cymorth Cyntaf i deuluoedd yr ardal. Dyma weithgaredd bwysig iawn ac roedd hi'n braf gweld cymaint wedi dod i fwynhau a dysgu gyda Michael. Da iawn Megan am dalu'r diolchiadau.

Lles Disgyblion

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi bod yn rhedeg gweithgareddau Pyramid yn yr ysgol. Mae hyn yn gyfle arbennig o dda i'r plant gael bod gyda'i gilydd mewn awyrgylch hapus a chynhwysol i wneud nifer o weithgareddau diddorol a chyffrous. Dymuniad y plant oedd galw'r clwb yn Clwb Hwyl a Sbri a hoffem ddiolch o galon i Helen Llywelyn am sicrhau'r nawdd, i Karren Roberts a Lois Reynolds am drefnu'r gweithgareddau.

Pêl-Droed Yr Urdd

Daeth y tymor pêl-droed i ben gyda phencampwriaeth yr Urdd ar gaeau Blaendolau.

Bu tîm bechgyn a tîm merched yr ysgol yn cystadlu'n frwd unwaith eto ym mhencampwriaeth rhanbarth Ceredigion. Chwaraeodd y merched dair gêm ond doedd lwc ddim o'u plaid eleni yn anffodus. Y tîm eleni oedd Catrin, Megan, Therèse, Becca, Angharad, Emily, Sky, Chloe a Gwenllian. Da iawn chi ferched am fod mor gystadluol.

Fe chwaraeodd y tîm bechgyn 6 gêm yn ei grŵp nhw gan ennill 4 a chael dwy gêm gyfartal. Ar adegau, roedden nhw'n chwarae pêl-droed o'r safon uchaf ac roedd cyd-chwarae a chefnogi ei gilydd yn nodwedd amlwg o'r diwrnod. Ond yn anffodus, collwyd yn y chwarteri o 3-1 yn erbyn tîm cryf Brynsaron. Da iawn i Steffan, Cai, Ioan, Ynyr, Oisín, Tomos, Joel, Leon a Brandan y gôl-geidwad am chwarae mor arbennig.

Hoffwn i ddiolch o galon i Wyn a Bernard am eu cymorth yn ystod y dydd.

Hoci

Ar ôl tymor gwyh yn ail gynghrair nos Wener eleni, penderfynwyd cystadlu yn rowndiau terfynol y prif gynghrair. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda gan guro dwy allan o'r tair gêm. Llongyfarchiadau mawr i chi ar eich llwyddiant yn ystod y tymor. Diolch yn fawr i Mrs Hughes, i Bernard a John am hyfforddi ac i'r rhieni am gefnogi'r tîm ymhob tywydd!

Trawsgwlad

Yn ystod mis Ebrill bu Megan Glover, Tomos Benjamin, Cai Thomas a Gethin Davies yn cynrychioli ardal Aberystwyth yng nghystadlaeth trawsgwlad rhanbarth yr Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd ac yn enwedig i Cai ddaeth yn 5ed yn y ras i fechgyn blyddyn 6. Da iawn bawb.

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd, gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:

cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini, gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

Dysgu Bro CEREDIGION Community Learning

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk



Llesol



Pêl-droed Bechgyn



Pêl-droed Merched



Hoci

CFfi Tal-y-bont a'r Cylch



Llun gan Tim Jones

Yn nawns dethol Swyddogion CFfi Ceredigion a gynhaliwyd yn ddiweddar dewiswyd Dewi Jenkins, Tynygraig, Tal-y-bont yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn am flwyddyn 2016-17.

Yn y llun hefyd mae Bethan Roberts, Mydroilyn, Brenhines y Sir gyda'i dirprwyon, o'r chwith - Megan Lewis, Trisant; Meirian Morgan, Llangeitho; Elli Dafydd, Bro'r Dderi a Lauren Jones, Llanwenog.

Llongyfarchiadau i Dewi ac edrychwn ymlaen i groesawu pawb i Rali Tal-y-bont a gynhelir ar Fferm Berthlwyd, ar y 4ydd o Fehefin gyda dawns i ddilyn ar fferm Neuadd Fawr.



NOSON STÊC
NOS FERCHER - 20% I FFWRDD!

DÊL CINIO
GWENER A SADWRN - 2 GWRS £11

CINIO SUL
12 - 2.30

01970 832 555
croeso@yblac.co.uk

yBlac
TALYBONT

argraffu da
am bris da



yLolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

EGLWYS ST. PEDR, ELERCH CAWS, GWIN A CHÂN

Côr Meibion Aberystwyth
Llund Llaw (Pontrobert)
Artistiaid Lleol

Nos Wener, 24 Mehefin 2016

7.00pm



MYNEDIAD £7.00

Llywydd: Ms Iola Wyn, Caerfyrddin



Eglwys St. Pedr, Elerch

Llongyfarchiadau i'n ficer, Y Parchg Andrew Loat, yn dilyn ei briodas ddiweddar gyda'r Parchg Heather Evans yn Eglwys Llanbadarn, ar Ebrill 9fed.

Caws, Gwin a Chân

Cynhelir ein noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân ar Ddydd Gwener, 24 Mehefin, i ddechrau am 7-00 pm. Bydd mynediad yn £7. Darperir yr adloniant eleni gan Gôr Meibion Aberystwyth, Parti Llund Llaw (Pontrobert, Powys) ac artistiaid lleol. Ein llywydd eleni fydd Iola Wyn, Caerfyrddin.

Dathlu yn Iweddion

Bu Helena, Siôn a'r teulu o Benygro, Bont-goch, yn dathlu canmlwyddiant Gwrthryfel y Pasg yn Nulyn. Bu Helena yn sgwrsio am y digwyddiad ar raglen Dylan Iorwerth 'Dan yr wyneb' ar Radio Cymru (11 Ebrill), a cafodd Siôn ei gyfweld hefyd ar deledu RTE Iwerddon. Yn y llun gwelir Helena, Oisín Lludd, Caoimhe Melangell a chwaer Helena, Máire Ní Shuilleabháin. Roedd y Ddraig Goch wedi gwneud cryn argraff ar y dyrfaf fawr!



Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Ebrill.

Baw Cŵn

Trafodwyd y broblem barhaol o faw cŵn yn Nhal-y-bont. Cyngor Adran Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Sir Ceredigion yw i unigolion gysylltu gyda hwy i adrodd am unrhyw broblemau. Nododd yr adran bod adroddiadau yn gryfach gyda lluniau o'r unigolion yn troseddu ac enw'r troseddwr. Cysyllter drwy ffonio 01545 572105 / envhealth@ceredigion.gov.uk

Difrod i'r Ffordd (Cwm Ceulan a Thal-y-bont i Bont-goch)

Adroddodd y Clerc fod Brian Thomas, Cyngor Sir Ceredigion, wedi cytuno cwrdd â'r Cynghorydd David Evans yn ystod mis Mai i ymweld â'r difrod ar ffyrdd y plwyf, yn benodol ffordd Cwm Ceulan a'r ffordd rhwng Tal-y-bont a Bont-goch. Cytunwyd i dynnu ei sylw at rai problemau eraill sydd wedi codi ar yr agenda dros y misoedd diwethaf.

Gohebiaeth - Gwasanaeth 'Shop mobility' Newydd Aberystwyth

Mae gwasanaeth "shop mobility" newydd yn Aberystwyth, yn 18 Chalybeate Street. Os oes angen rhywfaint o help arnoch i fynd o gwmpas Aberystwyth, gallwch logi sgwter symudol neu gadair olwyn gyda'r Gymdeithas Gofal. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01970 617 176 neu ewch i'r wefan <https://thecaresociety.wordpress.com/contact-us/>

Y Fynwent

Canllaw – Gofynnodd y Cynghorydd Nest Jenkins os fyddai modd ymestyn y canllaw sy'n rhedeg i lawr ochr yr hen fynwent. Cynigodd y Cynghorydd David Evans edrych ar y canllaw i weld os allai wneud y gwaith dros y Cyngor.

Bin Sbwriel – Nododd y Cynghorydd Nest Jenkins fod y bin sbwriel yn y fynwent yn gorlifo o hyd. Gwirfoddolodd y Cynghorydd Nia Evans i wagu'r bin sbwriel ar ran y Cyngor. Estynnwyd diolch iddi am ei chymwynas i'r gymuned.

Gwirfoddoli yn Nepal

Bydd Jessica Dixon, Craig y Penrhyn yn mynd am dri mis i wneud gwaith gwirofddol gyda'r International Citizen Service. Bydd yn gweithio ar brosiect a elwir yn Ddatblygiad Aflonydd yn Nepal. Bydd hi'n gweithio yn rhai o'r llefydd y cafodd eu heffeithio gan y daeargryn a darodd y wlad llynedd. Bydd Jessica yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yn hyrwyddo sgiliau bywyd, rhoi cymorth gyda'u haddysg a thaclo materion fel iechyd rhyw. Mae wedi gwneud sawl gweithgaredd er mwyn codi arian ar gyfer y daith. Cynhaliwyd cwis yn y Wildfowler, Tre'r Ddôl trwy garedigrwydd Michelle a Chris Walton. Daeth 16 o dimoedd i'r noson gwis a llwyddwyd i godi dros £350. Y tîm buddugol oedd Tîm Staff Ysgol Comins Coch. Hoffai Jessica ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni. Bydd hi'n ddiddorol cael yr hanes ganddi wedi iddi ddychwelyd o Nepal.



Gwilym Morus-Baird a Siwan Morus

Clwb Nos Wener

Cafwyd noson arbennig iawn ar 22 Ebrill wrth i CD 'Penillion i'r Leri' gael ei lansio yn Y Blac, Tal-y-bont.

Cywaith misoedd dan arweiniad Gwilym Morus-Baird yn dod i fwcwl a llond lle o gynulleidfa frwd yn mwynhau. Ysgrifenydd geiriau nifer o'r caneuon gan feirdd lleol – Carys Briddon, Bledwyn Owen Huws, David Jones a Siân Saunders, gyda Gwilym yn cyfansoddi'r alawon. Clywir lleisiau nifer o gantorion lleol hefyd yn canu dwy o'r caneuon. Cynlluniwyd y clawr trawiadol gan Ruth Jên.

Cyn i bob un a oedd yn bresennol ruthro i brynu copi o'r CD, bu Gwilym a Siwan yn perfformio'r holl caneuon.

Roedd elw'r noson yn mynd i Gylch Meithrin Tal-y-bont a llwyddwyd i godi £400.

Os hoffai unrhyw un brynu copi o 'Penillion i'r Leri' am £7, cysyllter â Fal Jenkins, 01970 832560.

Yn Eisiau - Rhywun i gadw tŷ

Rydym yn chwilio am ofalwr i edrych ar ôl bwthyn hunan-ddarpar poblogaidd, sydd ar gael i'w logi drwy'r flwyddyn. Bydd angen unigolyn sy'n hyblyg, yn byw yn ardal Tal-y-bont ac yn hapus i ofalu am:

- Lanhau a pharatoi'r bwthyn i'r gwsteion (ar Ddydd Sadwrn fel arfer ac am 20-25 wythnos y flwyddyn)
- Drefnu cyfarfod â'r gwsteion neu chydlynnu casglu'r gorïad
- Fod yn gyswllt ar gyfer y gwsteion ar ran y perchennog
- Edrych ar ôl y bwthyn

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Kate (07700 352062)

Cymdeithas y Chwiorydd Rehoboth



Yr aelodau tu allan i Nanteos

Ar brynhawn Mawrth, 12 Ebrill, a hithau'n brynhawn hyfryd o wanwyn, aeth yr aelodau i ymweld â Phlasty Nanteos. Cawsom ein tywys o amgylch rhai o'r ystafelloedd moethus gan Anna, ac roedd yn ddiddorol clywed am hanes cynnar y plasty a'r teuluoedd a fu'n byw yno. Ar un adeg, bu'n gartref i Gwpan Nanteos, a'r honiad oedd mai hwn oedd y Greal Sanctaidd a gludwyd yn wreiddiol i Glastonbury ac yna i Ystrad Fflur lle cafodd ei ddefnyddio fel cwpan iacháu, ond copi o'r cwpan sydd yno erbyn hyn. Ar ôl rhyw awr, cawsom ein tywys i'r ystafell fwyta i fwynhau te hufen.

Y Proff yn y Pyb

Dêl Twrci a'r Undeb Ewropeaidd, a ffoaduriaid Syria

Bydd Dr Ayla Göl o Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth yn trafod Twrci, yr Undeb Ewropeaidd a sefyllfa ffoaduriaid o Syria yn y Llew Gwyn ar nos Fercher 18 Mai am 8 yr hwyr.

Mae Ayla yn raddedig o Brifysgol Ankara, Twrci, ac ar hyn o bryd mae'n Gymrawd Ymchwil Gwadd yng Nghanolfan Astudiaethau'r Dwyrain Canol ac Moslemaidd ym Mhrifysgol Caergrawnt. Bydd Ayla yn trafod y cyd-destun hanesyddol a'r digwyddiadau diweddaraf yn sgil y rhyfela yn Syria. Mynediad am ddim, ac mae croeso cynnes i bawb.



GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

CHWARAEON



Tîm Tal-y-bont cyn y rownd derfynol

Chwalu Gobeithion

Fe fu'r wythnosau diwethaf yn rhai siomedig iawn i dîm cyntaf Clwb Pêl-droed Tal-y-bont. Collwyd yn rownd derfynol Cwpan y Cyngwrair a phrin yw'r gobeithion bellach o gadw gafael ar y bencampwriaeth ag enillwyd y llynedd.

Ddiwedd Ebrill chwaraewyd dwy gêm dyngedfennol yn erbyn y tîm sydd ar frig adran 1 o'r gynghrair sef Dolgellau. Llwyddwyd i ennill pwynt o ganlyniad i gêm gyfartal 1-1 ar Gae'r Odyn Galch ond oddi cartref collwyd gêm agos o ddwy gôl i un. Collwyd hefyd o 2-1 yn erbyn Eilyddion Machynlleth ar y Sadwrn canlynol.

Ar 4 Mai chwaraewyd rownd derfynol Cwpan y Gynghrair yn erbyn Aberdyfi ar faes Coedlan y Parc, Aberystwyth. Gyda'r cae yn galed roedd angen rheolaeth dda o'r bêl a phasio cywir, yn arbennig yng nghanol y cae, ond roedd mwy o sgiliau gan Aberdyfi yn yr elfen hon o'r chwarae yn yr hanner cyntaf. Aberdyfi hefydd gafodd y lwc wrth i'r gôl gyntaf ddeillio o'r bêl yn taro yn erbyn un o amddiffynwyr Tal-y-bont ac i gefn y rhwyd. Peniwyd ail gôl Aberdyfi o gic gornel ychydig cyn yr egwyl.

Gyda rhai newidiadau i'r tîm erbyn yr ail hanner bu Tal-y-bont yn pwyso ar amddiffyn Aberdyfi. Cafwyd sawl hanner cyfle ond methwyd â manteisio arnynt. Yn hwyr yn y gêm dyfarnwyd cic o'r smotyn i Aberdyfi ond llwyddodd Des Roberts, yn gwbl wyrthiol, i



Tal-y-bont yn ymosod yn y gêm yn erbyn Aberdyfi

arbed cic nerthol. Yna dyfarnwyd cic o'r smotyn i Dal-y-bont a rhwydwyd gan Robbie Southgate. Ond gôl gysur oedd hon a'r tîm o Feirion oedd yn dathlu ar ddiwedd y gêm.

Er y siom i'r tîm cyntaf, mae ail dîm Tal-y-bont yn dal i gystadlu am bencampwriaeth yr ail adran. Cawn hanes y tîm hwnnw yn y rhifyn nesaf.

Perfformio yn Llundain

Yn ddiweddar, bu Sam Ebenezer yn ddigon ffodus i gael chwarae'r brif ran yng nghynhyrchiad diwedd blwyddyn y 'Mountview Academy of Theatre Arts', un o'r sefydliadau perfformio mwyaf blaengar yn y DU. Perfformiwyd *Dogfight* ym Mwyty Karamel, Llundain, lleoliad sy'n fwy na bwyty ac yn llwyfannu cynrychiadau celfyddydol cyffrous a gwahanol. Lleolir y ddrama bwerus

Dogfight yn yr Unol Daleithiau adeg rhyfel Fietnam gan ganolbwyntio ar berthynas tri o fechgyn ifanc wrth iddynt ymbaratoi at ymuno â'r rhyfel. Roedd chwarae rhan cymeriad Eddie Birdlace yn gyfle da i gyfuno doniau actio a chanu Sam a bu canmol mawr i'r perfformiad. Dymunwn yn dda i ti Sam gyda'r perfformio i'r dyfodol ac edrychwn ymlaen yn fawr at glywed am dy lwyddiannau ym Mhapur Pawb.



Llun: Robin Savage

Licris Olsorts

Gyda'r cwmni drama yn dathlu ei ben blwydd yn ugain oed eleni roedd y cyfawryddwr Sion Pennant, Bontgoch yn awyddus i nodi'r achlysur mewn rhyw fodd. Penderfynwyd y byddai'n braf mynd ati i berfformio unwaith yn rhagor, un o'r tair drama gyntaf a gynhyrchwyd gan y cwmni dan arweiniad y diweddar Buddug James Jones, sef 'Helynt y Mefus' gan Rhiannon Parri.

Mae'n ffars hynod o hwyllog a doniol ac mae'r ymarferion yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn sbort a chwerthin. Mae'r criw actorion yn cynnwys, Rhian Evans, Sharon King, Janet Roberts, Gweneira Williams a Steffan Nutting. Cafwyd cyfle i'w pherfformio am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon ar nos Iau, 28 Ebrill gan gipio'r ail wobr. Teithio i Wyl Ddrama Corwen fu ein hanes yr wythnos ganlynol i berfformio ar noson Etholiad y Cynulliad ar y 5 Mai gan gipio'r trydydd safle y tro hwn. Edrychwn ymlaen at gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst.